**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 24ain Chwefror, 2020**

**PRESENNOL**

Cyng. Arwel Ll. Jones (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Hefin Martin, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams, Cyng. Dylan Jones, Cyng Austin Roberts

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 21ain Ionawr, 2020.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**GEGIN WEN, LLANDDOGED**

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau y cyngor am lefelu a thacluso gwyneb y maes parcio yn Gegin Wen.

**MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Cadarhaodd Cyng Jonh Owen y bydd aelodau o'r cyngor yn mynd draw i lenwi y twll wrth y fynedfa maes parcio wythnos yma.

**MATERION CYNNAL A CHADW O'R CYFARFOD DIWETHAF**

1. Pryder fod yr arwyddion(chevron) newydd ar y tro ar allt wrth Wigfa wedi cael eu gosod yn rhy uchel.
   Derbyniwyd eglurhad gan yr Adran Eiddo am pam osodwyd yr arwyddion chevron uchel ar y ffordd wrth Wigfa, Maenan er mwyn iddynt fod yn weladwy gerbydau uchel fel tractors.
2. Angen diweddariad i arwyddion groesffordd Tŷ Uchaf Maenan.
   Cyng Austin Roberts yn ymchwilio i beth sydd wedi mynd o'i le ar dryswch sydd wedi digwydd ar ol y cais anfonwyd i'r sir i gael arwyddion newydd sydd wedi torri i ffwrdd groesffordd Ty Uchaf Maenan.
3. Concrit slaps angen ei ail gosod wrth ymyl y bocs blodau ym Maes Gwyn, Llanddoged.
   Angen edrych ar y sefyllfa i weld faint o waith atgyweirio sydd ei angen ar y concrit slaps.

**LLIFODGYDD YN YR ARDAL**

Trafodwyd y difrod a gafwyd yn yr ardal yn dilyn y llifodgydd a gafwyd yn ddiweddar. Nifer o dai wedi cael dwr i mewn i'w heiddio. Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng Austin Roberts ei fod yn galw i weld y perchnogion sydd wedi dioddef gyda y llifogydd.

**CYLLID**

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid a nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol ac arwyddodd y Cadeirydd Cyng. Arwel Lloyd Jones matolen y cyfrif banc.

**CYNNAL A CHADW**

1. Twll yn y ffordd wrth Waen Oer, Maenan.
2. Angen sweeper ar ffyrdd Maenan heibio Tyn y Celyn ffordd Goppy.
3. Twll yn blocio yn y ffordd wrth Pont y Croes, ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
4. Twll yn y ffordd allt Pen Llan, Llanddoged.